Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Rhondda Cynon Taf

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2010

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y bartneriaeth a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Gradd** | **Yr hyn mae'r radd yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Darparwyd y wybodaeth gyd-destunol hon gan Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Rhondda Cynon Taf a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Rhondda Cynon Taf yw'r awdurdod mwyaf ond un a'r chweched awdurdod mwyaf o ran dwysedd y boblogaeth o awdurdodau unedol Cymru. Y prif ardaloedd o ran y boblogaeth yw Pontypridd, Aberdâr, Tonypandy, Treorci, Tonysguboriau a Glynrhedynog. Mae ffigurau Cyfrifiad o 2006 yn dangos mai 233,936 yw cyfanswm y boblogaeth. Mae ychydig llai na hanner (48.6%) yn wrywod, a 51.4% yn fenywod. Mae gan yr ardal boblogaeth sy'n heneiddio; mae 19.3% o'r dinasyddion o fewn yr oedran ymddeol. Mae'r boblogaeth yn ne'r fwrdeistref wedi cynyddu oherwydd nifer o brosiectau tai newydd a'r ffaith ei bod yn agos at draffordd yr M4. Mae gostyngiad wedi bod yn y boblogaeth yng ngogledd y fwrdeistref gan arwain at gynnydd yng nghanran y bobl hŷn yn yr ardal honno.

Mae nifer y bobl sy'n berchen ar gar yn Rhondda Cynon Taf wedi cynyddu er 1991 o 60.6% i 68.4% (Cyfrifiad 2001), ond mae'n parhau i fod yn is na'r cyfartaledd (76%) ar gyfer Cymru.

Nid oes gan bedwar deg pump y cant o boblogaeth Rhondda Cynon Taf unrhyw gymwysterau o'i gymharu â 33% yng Nghymru gyfan. Yn ôl cofnodion cyfrifiad 2001, nid oes gan fwy na hanner y boblogaeth yn y tair ward fwyaf difreintiedig unrhyw gymwysterau. Mae hyn yn llawer uwch na chyfartaledd y fwrdeistref sirol.

Mae dau ddeg pedwar o'r wardiau yn Rhondda Cynon Taf wedi'u dynodi yn wardiau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r wardiau hyn yn cynrychioli rhai o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Yn Rhondda Cynon Taf, ganwyd 89.9% o'r boblogaeth yng Nghymru, o'i gymharu â 75.4% ar gyfer Cymru gyfan. Yn 2001, 1.2% oedd cyfanswm y boblogaeth ethnig, ac nid yw hyn yn dangos llawer o newid er cyfrifiad 1991. Fodd bynnag, mae ffigurau cyfrifiad o 2008 yn dangos cynnydd yn nifer y gweithwyr mudol yn yr ardal.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad cyfredol y bartneriaeth** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r bartneriaeth** | **Digonol** |

### Perfformiad cyfredol

Mae'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr yn dda ar y cyfan. Mae'r ddarpariaeth yn llwyddiannus yn denu dysgwyr o grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd a chymunedau difreintiedig. Mae llawer o ddysgwyr sy'n dechrau o fannau cychwyn isel iawn yn cyflawni'n dda ac yn dda iawn mewn rhai achosion. Mae llawer o ddysgwyr yn mynd ati i geisio cyfrannu at fywyd eu cymunedau o ganlyniad i wella eu medrau. Mae llawer o diwtoriaid yn cyflwyno sesiynau strwythuredig sy'n helpu dysgwyr i barhau yn eu hastudiaethau ac maent yn aml yn symud ymlaen i lefelau dysgu uwch.

### Rhagolygon gwella

Er bod cyfraniad partneriaid unigol yn dda, dim ond yn ddiweddar y mae'r bartneriaeth dysgu oedolion newydd wedi cael cydnabyddiaeth gorfforaethol ffurfiol. Nid yw rheolwyr corfforaethol eto'n monitro gwaith y bartneriaeth yn ddigon da. Dim ond yn ddiweddar y maent wedi dechrau defnyddio gwybodaeth a phrofiad da aelodau'r bartneriaeth i gynllunio a chyflwyno darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn yr ardal. Roedd y bartneriaeth yn araf yn rhoi rhai o'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf ar waith.

## Argymhellion

Mae arolygwyr wedi cytuno gyda'r bartneriaeth ar yr argymhellion canlynol ar gyfer gwella:

A1 gwella cyd-gynllunio rhwng rheolwyr corfforaethol ac uwch reolwyr i sicrhau dyfodol dysgu oedolion yn y gymuned yn y fwrdeistref sirol;

A2 cwblhau'r camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r argymhellion hynny na aethpwyd i'r afael â nhw o'r arolygiad diwethaf, gan gynnwys defnyddio data yn well i gynllunio a monitro darpariaeth y bartneriaeth;

A3 datblygu systemau i sicrhau bod pob un o'r staff yn deall sut i nodi oedolion a allai fod yn agored i niwed a sut i ddefnyddio polisïau diogelu yn gyson;

A4 gwella'r cyfle a gaiff dysgwyr i fanteisio ar, a defnyddio arweiniad gyrfaoedd annibynnol; a

A5 gwneud yn siŵr bod yr enghreifftiau o waith prosiect yn cael eu lledaenu ar draws y bartneriaeth.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y bartneriaeth yn integreiddio'r camau o'r argymhellion yn y cynllun datblygu ansawdd sy'n ofynnol gan APADGOS.  Ymhen rhyw flwyddyn, bydd y bartneriaeth yn cael ymweliad arferol gan yr arolygydd cyswllt ardal neu arolygydd arweiniol y sector i fonitro cynnydd.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

At ei gilydd, mae cyrhaeddiad dysgwyr yn y bartneriaeth yn dda ym mhob cwrs. Mae rhaglen Cronfa Swyddi'r Dyfodol yn bodloni ei thargedau contract i helpu pobl i gael lleoliadau gwaith yn yr awdurdod lleol. Mae Rhondda Cynon Taf yn un o saith awdurdod lleol sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn consortiwm i gyflwyno'r rhaglen hon. Mae Rhondda Cynon Taf wedi rhagori ar y targedau perfformiad ar gyfer y rhaglen hon yn erbyn bron pob un o'r awdurdodau lleol eraill yn y consortiwm. Mae cyfraddau cwblhau mewn Addysg Sylfaenol i Oedolion (ASO) mewn darpariaeth freindal a darpariaeth nad yw'n ddarpariaeth freindal wedi gostwng yn rhannol oherwydd newid yn y mecanwaith cyfrifo, ond mae'n cyd-fynd â'r cymaryddion cenedlaethol. Mae cyfraddau cyrhaeddiad mewn Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) a dosbarthiadau hanes teuluol yn dda ac wedi gwella. Mae cyfraddau cyrhaeddiad wedi gwella ar gyfer pob cwrs achrededig ac maent ychydig uwchlaw cymaryddion cenedlaethol.

Mae dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn cyflawni'n arbennig o dda, ac mewn prosiectau Cymunedau yn Gyntaf, mae dysgwyr yn cyflawni safonau uchel. Mae llawer o enghreifftiau da o ddysgwyr sydd wedi magu hyder oherwydd eu cyfranogiad a'u cyflawniad. Mae hyn wedi eu helpu i symud ymlaen i gyrsiau mwy heriol, i addysg bellach ac addysg uwch, ac i gyflogaeth, ac mae wedi gwella eu hymglymiad ym mywyd eu cymunedau.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb am olrhain eu cynnydd eu hunain ond nid yw rhai yn deall yn llawn sut gall eu cynlluniau dysgu unigol eu helpu i gynllunio eu dysgu eu hunain. Serch hynny, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni eu targedau'n llwyddiannus, ac yn gwybod beth maent wedi'i gyflawni a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn gwneud cynnydd.

Mae llawer o ddysgwyr â medrau isel yn datblygu eu medrau iaith a chyfathrebu yn dda iawn mewn ystod o wahanol sefyllfaoedd. Ychydig o ddysgwyr yn unig sy'n defnyddio eu medrau Cymraeg yn eu dosbarthiadau ond mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio'r medrau hyn mewn sgyrsiau anffurfiol, er enghraifft, mewn llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol.

Mae dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn sesiynau rhagflas yn aml yn mynd yn eu blaen i ddilyn cyrsiau llawn. Mae llawer o ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau medrau sylfaenol yn gwneud cynnydd da ac maent yn cofrestru ar gyrsiau eraill hefyd.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu hyder a'u hunan-barch yn dda iawn. Gallant drosglwyddo eu medrau o un cyd-destun i'r llall a gwnânt ddefnydd da o'u medrau newydd mewn lleoliadau cymdeithasol a lleoliadau gwaith. Mae llawer o

ddysgwyr sy'n dechrau eu cyrsiau ar lefel isel o fedrau sylfaenol yn magu hyder a hunan-barch yn gyflym i wneud cynnydd da.

Mae bron pob un o'r dysgwyr wedi'u cymell yn dda ac yn frwdfrydig ynglŷn â'u dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu'n dda ac yn cymryd rhan yn llawn yn eu dosbarthiadau. Maent yn mwynhau dysgu ochr yn ochr â dysgwyr eraill o grwpiau oedran gwahanol, gan ddatblygu lefelau uchel o barch at ei gilydd ar draws y cenedlaethau. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cefnogi ei gilydd yn dda ac mae pob un ohonynt yn datblygu eu medrau cymdeithasol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliadau a'r dosbarthiadau y maent yn eu mynychu. Mae llawer ohonynt yn datblygu dealltwriaeth dda o ffyrdd iach o fyw trwy ddysgu am fwyta'n iach, hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu medrau bywyd pwysig iawn sy'n cyfrannu'n sylweddol at eu lles cyffredinol.

Mae llawer o ddysgwyr yn mynd ati i ddatblygu darpariaeth y bartneriaeth. Mae dysgwyr mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn cyfrannu'n dda at weithgareddau ymgynghori i benderfynu ar gyrsiau yn y dyfodol. Mae llawer o ddysgwyr yn ymwybodol o sut i gyfrannu at ddatblygu eu cyrsiau a dylanwadu ar gynnwys sesiynau. Mae llawer o ddysgwyr hefyd yn cyfrannu'n dda at ymgynghoriadau â dysgwyr y bartneriaeth.

Mae llawer o ddysgwyr wedi dod yn fwy gweithgar mewn datblygiad cymunedol trwy'r cyrsiau y maent wedi'u dilyn. Mae llawer o ddysgwyr mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wedi cymryd rhan yn weithredol i wella eu cymunedau. Maent yn deall gwerth gweithio gyda'i gilydd ac yn falch o ddefnyddio eu medrau ymarferol newydd i gefnogi dysgwyr eraill. Yr hyn y mae dysgwyr hŷn yn ei werthfawrogi fwyaf yw'r medrau newydd y maent yn eu dysgu yn eu dosbarthiadau, ond maent hefyd yn cydnabod manteision personol cyswllt cymdeithasol â phobl eraill.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r profiadau dysgu cymunedol a gynigir gan y bartneriaeth yn bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddysgwyr a'u cymunedau yn dda. Mewn rhai achosion, mae prinder cyrsiau lefel uwch yn cael eu rhedeg mewn canolfannau lleol i helpu dysgwyr cymunedol i wneud cynnydd.

Mae darpariaeth dda ar gyfer llawer o ddysgwyr Cymunedau yn Gyntaf. Mae rhai dysgwyr Cymunedau yn Gyntaf wedi gwneud cynnydd da i addysg bellach ac addysg uwch. Mae llawer o'r dysgwyr hyn yn dechrau o fannau cychwyn isel iawn.

Mae aelodau'r bartneriaeth, trwy eu Grŵp Tasg Dysgu Cymunedol, yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i rannu gwybodaeth ac adnoddau. Mae cysylltiadau da gyda chyflogwyr i ddarparu llwybrau a gefnogir a llwybrau nas cefnogir i waith.

Mae gan y bartneriaeth drefniadau effeithiol ar gyfer gwella medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddysgwyr mewn

dosbarthiadau ar wahân. Mae'r graddau y mae'r bartneriaeth yn ymgorffori llythrennedd, rhifedd a TGCh mewn cyrsiau eraill yn rhy amrywiol. Mae llawer o ddysgwyr nad ydynt wedi ymgymryd â dysgu yn rheolaidd yn dychwelyd i ddysgu yn llwyddiannus trwy raglen y bartneriaeth. Mae cyllid Pontydd i Waith, Cronfa Swyddi'r Dyfodol a Chronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) wedi helpu dysgwyr iau a'u teuluoedd, y mae llawer ohonynt wedi gadael yr ysgol â medrau isel, i ddychwelyd i ddysgu.

Caiff dysgwyr Cymraeg mamiaith ac ail iaith gyfleoedd da i siarad Cymraeg yn anffurfiol ac mewn lleoliadau cymdeithasol, er enghraifft, yng Nghaffi Blas yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r ddarpariaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg mamiaith ar y cyfan. Mae'r bartneriaeth wedi cynnal archwiliad o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ddiweddar. Mae grŵp tasg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y bartneriaeth yn datblygu ffyrdd o ddefnyddio'r archwiliad hwn i ledaenu'r arfer dda a ddangosir yng nghanolfan Garth Olwg yn ne'r fwrdeistref sirol i'r gogledd lle mae'r cyfleoedd i drigolion ddatblygu eu medrau Cymraeg yn gyfyngedig.

Caiff llawer o ddysgwyr gyfleoedd da i ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang a datblygiad cynaliadwy. Mewn un ardal Cymunedau yn Gyntaf, mae dysgwyr wedi defnyddio eu gwybodaeth yn dda i wneud sylwadau i'r cyngor a Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch gwella eu tai.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae tiwtoriaid yn meddu ar wybodaeth gyfoes am eu pynciau, y maent yn ei defnyddio'n dda yn eu haddysgu. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio ystod dda o weithgareddau, sy'n cynnig her briodol i'r dysgwyr. Mewn llawer o achosion, mae tiwtoriaid yn gweddu'r gwaith i fodloni diddordebau dysgwyr a lefel y dysgu yn dda. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid yw tiwtoriaid yn gwrando'n ddigon da ar ddysgwyr i ystyried anghenion a diddordebau dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi adborth llafar da i ddysgwyr am eu cynnydd, ac mewn llawer o achosion, maent yn darparu adborth ysgrifenedig da. Fodd bynnag, mae'r graddau y mae tiwtoriaid a dysgwyr yn defnyddio'r cynlluniau dysgu unigol i arwain y dysgu yn effeithiol yn amrywio ar draws cyrsiau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn parchu ei gilydd ac yn teimlo'n ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn rhoi sylw da i les dysgwyr ac yn eu cefnogi nhw'n dda i lwyddo. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn ymweld â dysgwyr ar gyrsiau yn y gwaith i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da.

Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr wybodaeth dda gan staff am eu hopsiynau. Mae'r Grŵp Tasg Dysgu Cymunedol yn cyfeirio dysgwyr yn effeithiol at gyfleoedd dysgu priodol. Mewn darpariaeth Cymunedau yn Gyntaf, mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn annog dysgwyr i ddilyn cyrsiau uwch neu i ehangu eu gwybodaeth am faes pwnc. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r staff yn gwybod digon am gyfleoedd dilyniant ar gyfer

dysgwyr. At ei gilydd, nid yw staff yn annog dysgwyr digon i wneud defnydd da o arweiniad gyrfaoedd annibynnol i'w helpu i wneud cynlluniau tymor hir effeithiol a phenderfyniadau gwybodus.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu. Fodd bynnag, nid yw'r systemau i sicrhau bod staff yn deall yr holl weithdrefnau diogelu yn ddigon trylwyr. Nid yw lleiafrif o staff yn glir ynghylch pa amgylchiadau sy'n cyfrannu at wneud oedolyn yn agored i niwed o bosibl.

Mae rhai enghreifftiau da iawn o gymorth arbenigol ar gyfer dysgwyr. Er enghraifft, i ymateb i geisiadau dysgwyr, mae cyfleuster defnyddiol mewn llyfrgell leol lle gall mamau fwydo eu babanod ar y fron mewn preifatrwydd. Yn gyffredinol, mae llyfrgelloedd yn bodloni ystod amrywiol o anghenion dysgwyr yn dda trwy gynnig gwasanaethau symudol, gwasanaethau cludiant i'r llyfrgell a gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr sy'n gaeth i'r tŷ.

Mae gweithdrefnau defnyddiol i diwtoriaid ddefnyddio cyfleusterau cymorth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, ni chaiff defnydd o gymorth arbenigol ei fonitro'n dda.

**Amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r bartneriaeth yn defnyddio dull da ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol ac addysgol. Mae ethos cadarnhaol iawn ymhlith staff a dysgwyr. Mae bron pob un o'r staff ar draws y bartneriaeth yn dangos ymrwymiad da i ddarparu cyfleoedd sy'n symud dysgwyr ymlaen yn eu dysgu a'u cyfleoedd bywyd. Mae systemau effeithiol ar waith i hyrwyddo cyfranogiad dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, gan gynnwys dysgwyr o ardaloedd difreintiedig.

Mae ansawdd yr adeiladau yn dda ar y cyfan. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio ystod eang o fannau mewn lleoliadau cymunedol, sy'n galluogi dysgwyr ar draws y bartneriaeth i ddechrau mynychu dosbarthiadau yn agos at eu cartref.

Mewn llawer o achosion, mae safon yr adeiladau yn rhagorol. Caiff llawer o ddosbarthiadau eu cynnal mewn adeiladau sy'n fodern, wedi'u gwresogi a'u hawyru'n dda, ac sydd â seddi hyblyg a mynediad da. Er bod angen adnewyddu rhai lleoliadau, mae dysgwyr yn teimlo'n gyfforddus ac yn hyderus yn dod i'r dosbarth. Mae gan y rhan fwyaf o leoliadau ystod dda o adnoddau, gan gynnwys cyfle da i ddefnyddio cyfrifiaduron a byrddau gwyn. Mae hyn yn welliant ers yr arolygiad diwethaf.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae aelodau etholedig sy'n gyfrifol am ddysgu gydol oes yn y fwrdeistref sirol yn dangos lefel uchel o ddealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu darpariaeth ddysgu i oedolion. Maent yn deall sut gall dysgu oedolion ychwanegu gwerth at fywyd unigolion a chymunedau. Mae pwyllgor craffu'r fwrdeistref sirol wedi derbyn

adroddiad defnyddiol sy’n archwilio natur a nodweddion dysgu oedolion yn y gymuned yn lleol. Mae’r aelodau wedi ymrwymo i’r bartneriaeth dysgu gydol oes newydd ac i sicrhau ffyrdd o ariannu dysgu oedolion yn y dyfodol. Nid ydynt eto wedi gosod targedau penodol ar gyfer y bartneriaeth dysgu oedolion.

Nid yw pob uwch reolwr corfforaethol wedi deall gwerth partneriaeth ffurfiol yn llawn eto. Nid oes cynllun partneriaeth cytûn sy’n amlinellu’n glir y blaenoriaethau ar gyfer dysgu oedolion. Fodd bynnag, mae rheolwyr corfforaethol y fwrdeistref sirol wedi cydnabod y bartneriaeth dysgu cymunedol o fewn y strwythur corfforaethol yn ddiweddar. Mae cynigion amlinellol ar gyfer y bartneriaeth sy’n amlygu darpariaeth medrau sylfaenol, ehangu cyfranogiad a dwyieithrwydd fel blaenoriaethau pwysig.

Nid oes gan reolwyr corfforaethol ddigon o ddata i arfarnu gwir effaith dysgu oedolion yn y gymuned ledled yr ardal. Mae rheolwyr gweithredol yn ffurfio strategaethau i ddiogelu dysgu oedolion yn y gymuned yn y dyfodol, ond megis dechrau datblygu y mae’r rhain.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae hunanasesu o fewn y bartneriaeth ar lefel sefydliadol unigol yn amrywio o ddigonol i dda. Roedd yr adroddiad hunanasesu ar y cyd a luniwyd gan y bartneriaeth ar gyfer yr arolygiad yn cysylltu’n dda â thystiolaeth yn adroddiadau hunanasesu’r darparwyr unigol. Fodd bynnag, mae’r adroddiad hunanasesu yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw’n ddigon clir o ran asesu darpariaeth y bartneriaeth.

Defnyddir data yn effeithiol i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella rhwng rhai partneriaid ond mae hyn yn amrywio ar draws y bartneriaeth. Mae’r amrywiad yn digwydd oherwydd bod darparwyr yn defnyddio amrywiaeth eang o ffynonellau cyllid, sy’n gofyn am ddata mewn gwahanol ffyrdd ac at ddibenion gwahanol. Mae’r bartneriaeth wedi dechrau casglu data i helpu cynllunio ar gyfer gwella, ond megis dechrau datblygu y mae hyn. Mae partneriaid yn aml yn rhannu arbenigedd a phrofiad ond nid oes gan y bartneriaeth ffyrdd o ledaenu arfer dda ledled yr ardal.

Mae amrywiaeth briodol o grwpiau o ddarparwyr yn cyfarfod â’i gilydd i arfarnu’r ddarpariaeth. Mae’r coleg a’r awdurdod lleol yn gweithio gyda’i gilydd yn dda i sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth freindal yn cael ei reoli’n effeithiol. Mae Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (De) wedi gwneud trefniadau i ddatblygu darpariaeth effeithiol yng ngogledd y fwrdeistref yn bennaf.

Mae llais y dysgwr yn sylfaenol i ethos y dysgu mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae’r bartneriaeth yn aml yn ymateb yn dda i geisiadau gan grwpiau o ddysgwyr i ddarparu cyrsiau penodol. Mae’r bartneriaeth hefyd wedi cymryd camau i wahodd dysgwr i ddod yn aelod o grŵp llywio’r bartneriaeth.

Mae is-grŵp Cwricwlwm ac Ansawdd y bartneriaeth yn gweithio i wella’r prosesau ansawdd. Mae’r grŵp hwn yn cynllunio i weithio’n fwy effeithiol ar lefel partneriaeth. Mae partneriaid wedi defnyddio arian y Gronfa Gwella Ansawdd yn dda i ddatblygu canllaw ansawdd defnyddiol ar gyfer tiwtoriaid. Mae’r broses arsylwi tiwtoriaid i arfarnu ansawdd addysgu a dysgu mewn dysgu achrededig a dysgu anachrededig wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf. Mae gan diwtoriaid yn y dosbarthiadau hyn

waith papur o ansawdd da erbyn hyn i gefnogi'r broses Adnabod a chofnodi cynnydd a chyflawniad (RARPA). Yn gyffredinol, roedd y tîm arolygu yn cytuno â'r asesiadau mewnol. Fodd bynnag, mae rhai anghysondebau mewn graddio rhai arsylwadau mewnol.

Mae'r coleg a'r awdurdod lleol wedi gweithio gyda'i gilydd i wella'r data rheoli ar y cyd sydd ar gael ar gyfer y ddarpariaeth freindal. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth well i reolwyr o gyfraddau cyrhaeddiad a chyflawniad eu darpariaeth. Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth wedi mynd i'r afael â phob un o'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf yn llawn eto.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r awdurdod lleol, gyda chymorth da gan y coleg, yn arwain grŵp llywio'r bartneriaeth ddysgu. Mae'r grŵp wedi cytuno ar weledigaeth glir a phriodol i gefnogi cynllunio a chyflwyno dysgu oedolion yn y gymuned (DOG). Mae cysylltiadau da â chynlluniau strategol eraill i uchafu'r cyfleoedd ar gyfer dysgwyr DOG. Fodd bynnag, mae cyflymder y datblygu wedi bod yn araf ac nid yw'r grŵp llywio yn gweithredu fel corff eto i gynllunio a goruchwylio datblygiad corfforaethol DOG ledled yr ardal.

Daethpwyd â'r bartneriaeth flaenorol i ben yn 2009 ond parhaodd y cyfathrebu da rhwng rheolwyr gweithredol. Mae cynlluniau arfaethedig y bartneriaeth newydd yn rhoi ystyriaeth dda i agendâu strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn dangos ffyrdd arloesol o ddatblygu a chynnal y ddarpariaeth.

Nid yw'r cysylltiadau rhwng yr ysgolion bro a darpariaeth Cymunedau yn Gyntaf yn ddigon clir yng nghynlluniau'r bartneriaeth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n dda i gaffael a rhannu adnoddau ar gyfer dysgwyr DOG. Mae rhieni yn arloesol ac yn hynod fentrus yn eu hymdrechion i sicrhau parhad y cyllid a'r adnoddau ar gyfer y ddarpariaeth. Mae darparwyr y bartneriaeth yn defnyddio'r staff a'r adnoddau sydd ar gael yn dda.

Mae mwyafrif o reolwyr Cymunedau yn Gyntaf yn defnyddio adnoddau yn dda i hyrwyddo dysgu oedolion yn y gymuned ar lefel leol. Maent yn rhannu adnoddau gyda darparwyr eraill ac yn gwneud y mwyaf ohonynt. Fodd bynnag, nid yw rhaglen strategaeth ieuenctid E3+ yn defnyddio arbenigedd y bartneriaeth yn llawn eto i gefnogi ei darpariaeth fro.

Mae'r rhan fwyaf o bartneriaid wedi rhoi prosesau ar waith i fodloni anghenion datblygu'r staff. Mae partneriaid yn rhannu rhaglenni Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ei gilydd i wneud y gorau o'r cyfleoedd ar gyfer staff.

At ei gilydd, mae'r bartneriaeth yn sicrhau deilliannau effeithiol iawn ar gyfer dysgwyr, yn enwedig y rhai sy'n anodd eu cyrraedd. Mae'r bartneriaeth yn darparu gwerth da am arian ar gyfer ei dysgwyr a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethau.

# Atodiad 1

**Boddhad Dysgwyr**

Cynhaliodd Estyn arolwg o ddysgwyr yn y bartneriaeth ychydig cyn yr arolygiad.

Dychwelwyd yr holiadur gan ddau gant ac un o ddysgwyr ac roedd 156 wedi cael eu llenwi'n llawn. Fe wnaeth y canfyddiadau helpu Estyn i gael syniad o farn a phrofiad dysgwyr o'r ddarpariaeth a gyflwynir yn ardal y bartneriaeth ar hyn o bryd.

Dywedodd bron pob un o'r dysgwyr eu bod yn mwynhau eu dysgu. Dywed ychydig iawn o ddysgwyr nad ydynt yn cael cynnig cyfleoedd a chymorth dysgu mewn Cymraeg a/neu Saesneg yn unol â'u dewis.

Dywed pob un o'r dysgwyr fod staff yn eu helpu'n dda neu'n dda iawn yn ystod wythnosau cyntaf eu rhaglen ddysgu.

Roedd bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo iddynt gael gwybodaeth dda pan wnaethant ddewis eu cyfleoedd dysgu. Fodd bynnag, dywed ychydig iawn o ddysgwyr nad ydynt yn cael cyngor da ynglŷn â'r hyn y gallent ei wneud pan fyddant wedi gorffen eu rhaglen ddysgu.

Nid yw ychydig iawn o ddysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan eu cyflogwyr yn eu lleoliadau gwaith.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Enid Hankins | Arolygydd Cofnodol |
| Sarah Lewis | Arolygydd Tîm |
| Linda Howells | Arolygydd Tîm |
| Penny Lewis | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick | Arolygydd Tîm |
| Stephen Davies | Arolygydd Tîm |
| Bernard O’Reilly | Arolygydd Tîm |
| Betty Mason | Arolygydd Cymheiriaid |
| Robert Parkin | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lynette El-Khatib | Enwebai’r Darparwr |